**CYFARFOD Y CYNGOR** a gynhaliwyd ar ddydd Mercher 15fed Ionawr 2019 yn Siambr y Cyngor, Swyddfeydd Dinesig, Ffordd Wellington, y Rhyl yn dechrau am 6.00pm.

## YN BRESENNOL

Y Cynghorydd Mrs E. M. Chard (Maer)

Y Cynghorwyr J. Ball, Mrs J. Butterfield YH MBE, A. R. James, A. S. Johnson, K. R. Jones, Mrs D. L. King, Ms J. L. McAlpine, B. Mellor, Mrs W. M. Mullen-James, P. Prendergast, Miss S. L. Roberts, Ms V. Roberts, T. Thomas a Miss C. L. Williams.

Mr G. J. Nickels – Clerc y Dref
Miss H. J. Windus – Dirprwy Glerc y Dref

## 114. CYCHWYN Y CYFARFOD AC YMDDIHEURIADAU

Cychwynodd Caplan y Maer, y Tad Charles Ramsay, y cyfarfod trwy arwain pawb a oedd yn bresennol mewn gweddi, gyda chydnabyddiaeth arbennig o farwolaeth brawd y Cynghorydd B. Blakeley.

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb ar ran y Cynghorwyr B. Blakeley, Mrs J. Chamberlain-Jones, B. Jones, Mrs P. M. Jones, A. J. Rutherford ac R. J. Turner.

***PENDERFYNWYD*** *anfon cerdyn yn cydymdeimlo at y Cynghorydd Blakeley.*

## 115. COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfodydd canlynol o'r cyngor a'i bwyllgorau i'w cymeradwyo fel cofnod cywir:

Y Cyngor - 18fed Rhagfyr 2019 - Rhifau Cofnod 96-113

Mewn perthynas â chofnod rhif 110 (Cyllideb Flynyddol) dywedodd Clerc y Dref bod y ffigwr anghywir wedi ei argraffu. Dylai £553,661 ddarllen £553,611.

Cyhigiwyd gan y Cynghorydd Mrs E. M. Chard ac eiliwyd gan y Cynghorydd K. R. Jones a ***PHENDERFYNWYD*** *eu bod yn gofnod cywir, yn amodol ar y newid.*

Pwyllgor Cynllunio - 18fed Rhagfyr 2019 - Rthifau Cofnod 34-36

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Mrs W. M. Mullen-James ac eiliwyd gan y Cynghorydd Ms J. L. McAlpine a ***PHENDERFYNWYD*** *eu bod yn gofnod cywir.*

## 116. ADRODDIAD Y MAER

Cyfeiriodd y Maer at ei phresenoldeb mewn digwyddiadau dros y mis diwethaf ac yn benodol at ddigwyddiad Trochiad Gwyl San Steffan yr RNLI, yr oedd wedi ei fwynhau yn fawr iawn ac adroddodd bod mwy o bobl nag erioed wedi cymryd rhan.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn yr adroddiad.*

## 117. CYFLWYNIAD: CFONOD O FLWYDDYN YN Y SWYDD

Gwahoddodd y Maer y Cynghorydd Mrs W. M. Mullen-James i dderbyn ei chofnod o'i blwyddyn fel maer 2018-2019 fel cofrodd.

Derbyniodd y Cynghorydd Mullen-James y ddwy ffeil fawr a diolchoddd i'w chyd-gynghorwyr am eu cefnogaeth yn ystod ei blwyddyn fel Maer.

## 118. ADRODDIAD TALIADAU A DERBYNIADAU (ATYODLEN A) - RHAGFYR 2019

Cyfeiriodd hy Cadeirydd at adroddiad Clerc y Dref (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) yn manylu'r atodlen o daliadau a wnaed ac incwm a dderbyniwyd.

| Rhif Taleb | Enw'r Cyflenwr | Swm £ | Disgrifiad o'r Nwyddau a'r Gwasanaethau |
|---|---|---|---|
| 887a | HSBC | 8.06 | Taliadau banc 17/10/19 hyd at 16/11/19 |
| 888 | BT | 128.16 | Gwasanaethau Rhyngrwyd |
| 893 | HSBC | 32.00 | Ffi flynyddol am gerdyn |
| 892 | Cyngor Sir y Fflint (Cronfa Bensiwn Clwyd) | 4,290.48 | Cyfraniadau Pensiwn ac Ariannu Diffyg Tach 2019 |
| 891 | CThEM | 2,742.91 | Didyniadau PAYE Tach 2019 |
| 889 | Gunsmoke Communications | 1,440.00 | Ffioedd Rheoli Digwyddiadau Tachwedd 2019 |
| 890 | Staff Cyngor Tref y Rhyl | 7,171.72 | Cyflogau Staff Rhagfyr 2019 |
| 716 | Cyngor Sir Ddinbych | 723.00 | TANC ar gyfer Swyddfeydd Ffordd Wellington – Taliad 9 o 10 |
| 723 | Siop Cyngor ar Fudd-daliadau | 916.67 | Swyddog Apelio Rhan-amser 19/20 Taliad 9 o 12 |
| 906 | BT | 166.22 | Taliadau Rhent |
| | **Cyfanswm taliadau** | **£17,619.22** | |

| Categori | Disgrifiad | Swm |
|---|---|---|
| Llog | Cyfrif Rhybudd 31 Diwrnod Santander | 40.07 |
| Llog | Cyfrif HSBC 7 Money Maker | 21.47 |
| Llog | Cyfrif HSBC 7 Day Money Market | 23.01 |
| Llog | Cyfrif HSBC 7 Day Money Market | 22.63 |
| Llog | Cyfrif HSBC 7 Day Money Market | 22.64 |
| Llog | Cyfrif HSBC 7 Day Money Market | 25.87 |
| Praesept | Cyfran 3 o 3 gan Gyngor Sir Ddinbych | 181,141.00 |
| | **Cyfanswm Incwm** | **181,296.69** |

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r adroddiad.*

**119. AWDURDODI TALIADAU / YCHWANEGIADAU I'R RHESTR O GYFLENWYR CYMERADWY (ATODLEN B)**

Ymhellach i gofnod rhif 143 cyfarfod y cyngor a gynhaliwyd ar 15fed Mawrth 2017, ac yn unol â rheoliadau ariannol y cyngor, cyflwynodd Clerc y Dref atodlen B (rhestr o daliadau an-rheolaidd i'w rhyddhau dros y mis i ddod) a manylion un cyflenwr ychwanegol i'r rhestr o gyflwynwyr ar ôl cymeradwyaeth gan yr aelodau.

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r canlynol i'w talu a'i lofnodi gan ddau gynghorydd.*

*Taliadau Atodlen B i'w cymeradwyo (12fed Rhagfyr hyd at 7fed Ionawr 2020)*

| Cyflenwr | Manylion Cyflenwad | Rhif Taleb | Swm £ |
|---|---|---|---|
| HSBC | Arian Mân | 905 | 200.00 |
| Cyngor Sir Ddinbych | Arlwyo ar gyfer Sul y Coffa | 915 | 825.00 |
| Cyngor Sir Ddinbych | Llogi Neuadd y Dref ar gyfer Parti Nadolig | 916 | 150.00 |
| Y Cyngh J Chamberlain Jones | Costau Teithio NMWATC | 917 | 15.30 |
| Sant Ioan Cymru | Cymorth Cyntaf Disgo Nadolig y Plant | 918 | 72.00 |
| Cronfa Dawns Elusen Maer Dinbych | 2 docyn cyngerdd ar 29ain Chwefror 2020 | 919 | 20.00 |
| Y Cyngh E Chard | Treuliau Maer Rhagfyr 2019 | 920 | 90.60 |
| Cyngor Sir Ddinbych | Trwsio Goleuadau Tymhorol a Choeden Nadolig | 921 | 270.00 |
| Cymdeithas Cynghorau Tref Gogledd a Chanolbarth Cymru | Tanysgrifiad Blynyddol 2019/20 | 922 | 90.00 |
| Delwedd Ltd | Cynyddu maint blwch post Ymholiadau | 923 | 12.96 |
| Amazon | Hidlwyr Dwr | 924 | 20.48 |
| Cyngor Sir Ddinbych | Gosod a symud ymaith Coeden Nadolig | 925 | 332.64 |
| **Cyfanswm Atodlen B** | | | **£2,098.98** |

**120. CRONFA BENSIWN CLWYD – PRISIAD TEIRFLYNYDDOL 2019 AR GYFER CYNGOR TREF Y RHYL**

Cyfeiriodd Clerc y Dref at ei gyd-adroddiad ef a'r Swyddog Cyllid (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) yn ymwneud â phrisiad teirflynyddol cronfa bensiwn y Cyngor Tref.

Holodd aelod pam fod asedau'r cyngor wedi codi o £351,300 yn 2013 i £742,980 yn 2019.

Dywedodd Clerc y Dref bod hyn oherwydd marwolaeth aelod staff yn y gwasanaeth yn ôl yn 2008, ond bod y cyngor ar y blaen ar ei raglen adfer

dledion gan fod buddsoddiadau wedi perfformio'n well na'r disgwyl, gyda dyled o sero yn cael ei ragweld mewn 11 o flynyddoedd.

***PENDERFYNWYD***:

*(i) Cynyddu'r gyfradd fusnes yn y dyfodol o 15.5% i 18.7%*

*(ii) Bod taliadau diffyg cyfandaliadau yn £20,400 y flwyddyn am y tair blynedd nesaf a bod cyfandaliadau yn cael eu talu mewn rhandaliadau misol cyfartal*

*(iii) Cost cyfraniadau pensiwn a ragwelir ar gyfer 2020/21 yw £43,125 o gymharu â chyllideb a gymeradwywyd o £43,800*

**[Datganodd Clerc y Dref a Dirprwy Glerc y Dref fuddiant personol yn yr eitem uchod a gofynnwyd iddynt adael y siambr er mwyn i'r aelodau benderfynu ar y tri argymhelliad yn yr adroddiad]**

**121. GOHEBIAETH: CYNGOR SIR DDINBGYCH – PROSIECTAU SEILWAITH GWYRDD**

Cyfeiriodd Clerc y Dref at yr ohebiaeth uchod (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) yn gofyn am weithio gyda'r Cyngor Tref wrth ddarparu prosiectau 'gwyrddio' yng nghanol y dref.

Croesawodd yr Aelodau y fenter werdd, ac roeddynt yn teimlo y byddai'n gwella golwg a theimlad canol y dref yn arwyddocaol, a chyfeirio at eu cais i gael elfen 'werdd' yn swyddfeydd newydd y Cyngor Tref yn 26 Ffordd Wellington.

Ychwanegodd Clerc y Dref bod aelod hefyd wedi awgrymu yn ddiweddar y dylid ystyried cael coeden Nadolig fyw, drwy gydol y flwyddyn, yn y stryd fawr fel opsiwn amgen cynaliadwy i brynu coed bob blwyddyn.

Dywedodd aelod mai'r dyddiad cau ar gyfer ceisidau symiau neilltuedig oedd 31ain Ionawr 2020 a dywedodd Clerc y Dref na fyddai arian yn cael ei golli y tu hwnt i'r dyddiad hwnnw os nad oedd wedi ei ddyrannu.

Awgrymodd aelod arall y dylid ystyried perllan gymunedol yn darparu ffrwyth am ddim.

***PENDERFYNWYD***:

*(i) Anfon y syniad o gael coeden fyw ymlaen i'r Is-bwyllgor Cynnal a Chadw Tiroedd i'w ystyried ymhellach.*

*(ii) Bod Clerc y Dref yn gwahodd Swyddog Arweiniol y Cyngor Sir i gyfarfod yn y dyfodol i ddiweddaru'r aelodau ar gynlluniau Cyngor Sir Ddinbych i gyflwyno elfennau gwyrdd yn y dref, gan nad oedd Mr Mike Horrocks bellach yn y swydd.*

**122. EITEM ER GWYBODAETH: DIGWYDDIAD YMWYBYDDIAETH DEMENTIA**

Hysbysodd Clerc y Dref bod y digwyddiad uchod yn cael ei gynnal am 5.00pm ar ddydd Iau 30ain Ionawr yn Siambrau Clwyd.

**123. EITEM ER GWYBODAETH: CAIS GAN EISTEDDFOD YR URDD**

Hysbysodd Clerc y Dref bod cais wedi ei dderbyn i'r Cyngor Tref ystyried cefnogi noson codi arian yn Theatr y Pafiliwn ar 1af Chwefror 2020 trwy ddodi hysbyseb hanner tudalen yn rhaglen y noson am gost o £50.

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r cais.*

**124. HOLI AC ATEB**

Ni ofynnwyd unrhyw gwestiynau gan aelodau'r cyhoedd a oedd yn bresennol

**125. TERFYNU'R CYFARFOD**

Gan nad oedd unrhyw eitemau busnes pellach, dywedodd y Dirpwy Faer bod cyfarfod y Cyngor wedi dod i ben.

Maer: ………………….……..

Dyddiad: …………………………